
GYDA'N GILYDD DROS NEWID
TOGETHER FOR CHANGE



# Grym lle - yn rhoi cymuned wrth wraidd polisi cenedlaethol Cymru

### Darlleniad 3 munud ar gyfer pleidiau gwleidyddol Cymru

## Y ffeithiau

Mae pa mor dda mae pobl yn teimlo a pha mor dda maen nhw'n byw'n dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Gwyddom mai un o'r ffactorau pwysicaf yw lle, lle mae pobl yn byw - y pentrefi, a chymdogaethau dinasoedd a threfi. Gallant fod yn lleoedd da i fyw os ydynt yn gymunedau yn yr ystyr go iawn. Felly, beth yw nodweddion allweddol cymunedau cryf a lleoedd da i fyw? Mae'n debygol y bydd gan y cymunedau hynny gysylltiadau cymdeithasol da a thrigolion sy'n barod i wirfoddoli. Byddant yn berchen ar dir ac eiddo. Mae pobl yn dod at ei gilydd fel grwpiau ffurfiol neu anffurfiol i wneud bywyd yn well, trwy gamau gweithredu a all fod yn gymdeithasol, yn economaidd neu'n amgylcheddol o ran pwrpas.

Mae'n debygol y bydd y Cyngor Cymuned, Tref neu Ddinas, os oes un yn yr ardal, yn gynhwysol, yn rhagweithiol ac yn arloesol. Bydd gan sefydliadau'r sector cyhoeddus bolisïau a gweithdrefnau sy'n dod â manteision sylweddol i'w cymunedau. Yn ogystal, os yw'r sectorau'n gweithio gyda'i gilydd, gyda chymunedau'n cymryd rhan fel partneriaid cyfartal wrth wneud penderfyniadau, mae'n debygol y bydd ymddiriedaeth ac ymgysylltiad democrataidd yn cael eu meithrin, y sector cyhoeddus yn gwneud arbedion cost, ac y bydd cryfder a gwydnwch cymunedol yn cael eu hadeiladu i ymdopi ag argyfyngau. At ei gilydd, bydd cyfraniad mawr yn cael ei wneud at nodau datblygu cynaliadwy Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisïau eraill.

Fodd bynnag, mae yna leoedd sydd heb ymdeimlad o gymuned oherwydd nad oes unman i ymgynnull yn lleol, mae trafnidiaeth yn wael, neu mae pobl yn rhy brysur gyda heriau byw o ddydd i ddydd. Yma, mae pobl leol yn llai tebygol o ddod at ei gilydd a gweithio ar y cyd i adeiladu cymuned. Gall sefydliadau allanol gefnogi'r lleoedd hyn yn llwyddiannus os yw'r cymorth yn sensitif ac wedi'i deilwra i amgylchiadau lleol. Datblygu cymunedol yw hyn a gall fod yn ymdrech hirdymor.

Mae miloedd o grwpiau a sefydliadau cymunedol yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf ohonynt ymdopi gydag ychydig iawn o adnoddau ariannol ond o dan bwysau cynyddol maent yn dal i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl yn y cyfnod anodd hwn. Yn bwysig, maent hefyd yn helpu i leddfu'r pwysau ar wasanaethau statudol sydd wedi mynd trwy gyfnod o ddirywiad.

Er gwaethaf eu pwysigrwydd cynyddol, mae sefydliadau cymunedol yn dibynnu'n helaeth ar grantiau tymor byr sy'n gynyddol anodd eu cael. O ganlyniad, mae cynaliadwyedd y sefydliadau hyn yn ansicr iawn. Ymysg y rhwystrau eraill: rhai ardaloedd yn cael eu gadael allan o wneud penderfyniadau mewn materion polisi a strategol; anghysondeb y gefnogaeth ledled Cymru i feithrin sgiliau a chapasiti prosiectau; a diffyg amser a chyfle i ddysgu o arfer llwyddiannus eraill. Mae gweithwyr datblygu cymunedol yn brin lle mae eu hangen fwyaf. Mae pob sector yn tynnu sylw at yr angen am strategaeth genedlaethol a allai uno'r nifer o sefydliadau sy'n gysylltiedig a lleihau darnio a dyblygu ar draws tirwedd y gymuned.

Er ein bod yn gwybod o'r pandemig bod cymunedau'n mynd ati ac yn cyflawni, gyda neu heb gefnogaeth allanol, mae angen mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn fel bod gweithredu cymunedol mor effeithiol ag y gall fod. O ran lleoedd lle mae'r gymuned yn wan, neu ddim yn bodoli, bydd cefnogaeth ymroddedig ar ffurf datblygu cymunedol yn helpu i feithrin cysylltiadau a gweithredu.

Mae adeiladu cymuned a mynd i'r afael â'r rhwystrau i newid effeithiol yn agored i atebion a dylai fod yn ymdrech gydweithredol a chydlynol. Dylai dorri ar draws pob maes polisi, sector a lefel o lywodraethu. Er bod hyn yn ymddangos yn her aruthrol, mae'r sylfaen wybodaeth yn gryf i fwrw ymlaen ag atebion posibl ac ymarferol ar gyfer cynnydd.

# Beth fyddai o gymorth?

## Arweinyddiaeth a pholisi cymunedau pwrpasol

Bydd y polisi'n ddefnyddiol os caiff ei gynhyrchu ar y cyd, ac os yw'n cwmpasu pob maes polisi, rôl a chyfrifoldeb. Dylai fod yn ddigyfyngiad o ran cwmpas a bod yn feiddgar ac yn dryloyw o ran adnoddau arloesedd a chyfoeth cymunedol, a'r strwythur sy'n ei gefnogi. Bydd y polisi'n ddefnyddiol os yw'n meithrin dealltwriaeth gyffredin ac eglurder pwrpas; yn hybu'r sylfaen dystiolaeth; ac yn nodi blaenoriaethau. Er mwyn cryfhau arweinyddiaeth, creu swydd Weinidogol ar gyfer Cymunedau.

## Cymhwyso model economaidd lleol amgen i adeiladu cyfoeth cymunedol

Parhau â hanes balch Cymru o gwmnïau cydfuddiannol a chydweithredol. Ar frys, gwella'r prosesau wrth drosglwyddo perchnogaeth tir ac adeiladau. Cryfhau'r gefnogaeth i fusnesau cymdeithasol lleol newydd gyda hyfforddiant, cyllid a hwyluso rhwydweithiau.

## Sicrhau bod grwpiau a sefydliadau cymunedol yn bresennol a bod ganddynt statws cyfartal wrth lunio polisïau

Dwyn sefydliadau i gyfrif os ydynt yn methu â gweithredu'r gofyniad hwn mewn polisïau cyfredol.

## Targedu adnoddau ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen

Sefydlu dealltwriaeth fanwl o gymunedau ar lefel ddaearyddol fach trwy gyfuno a mapio data o sawl ffynhonnell (demograffeg, amddifadedd, asedau, trafnidiaeth, gwasanaethau ac ati). Gwthio am ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer caffael lleol. Gwneud y siroedd â'r lefelau uchaf o dlodi plant yn flaenoriaeth.

## Mynd i'r afael â'r rhwystrau systemig i newid effeithiol

Creu lle ac amser i bobl ddod at ei gilydd ar lefel genedlaethol, i rannu'r hyn maen nhw'n ei wneud, cynyddu cydweithio a gwella cydlynu.

## Buddsoddi mewn ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth

Cyflwyno grantiau ymchwil pwrpasol a darparu cefnogaeth i gynnal rôl sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ymchwil a datblygu.

## Cyflwyno modelau a phrosesau ariannu gwell

Torri'r cylch anfoddhaol o gyllid grant cystadleuol tymor byr y mae'n rhaid i gymunedau ddibynnu arno. Ystyried swyddogaethau ac effeithiolrwydd cyrff statudol rhanbarthol a lleol, ac yn benodol sut y gallai model ariannu gwell ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a chyllid cronedig gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

## Cefnogi mentrau lles integredig sy'n seiliedig ar leoedd yn weithredol

Cynnwys y sectorau'n cydweithio. Ystyried, fel man cychwyn, brosiectau peilot partneriaeth sy'n cynnwys iechyd a gofal cymunedol.

*Tynnwyd tystiolaeth ar gyfer y rhestr uchod o ymchwil a gwerthuso, gweithdai mewn cynadleddau a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ac Abertawe, a gwaith prosiect cymunedol (ewch i'r dolenni yma am fwy o wybodaeth:* ***Adroddiad GGDN – Gweithio Gyda'n Gilydd; Adroddiad GGDN – Gwell Gyda'n Gilydd; Ffilm – Gwell Gyda'n Gilydd****). Mae llawer o sefydliadau'n ysgrifennu maniffestos o safbwynt eu sefydliadau eu hunain ond maent i gyd yn uno o amgylch egwyddorion tebyg ynghylch cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb a'r angen brys i ystyried cymunedau lle fel craidd cynnydd a newid yng Nghymru. Byddai cynnull grŵp traws-sector gyda chynrychiolaeth gymunedol i lywio'r polisi'n ddechrau da.*

**Cysylltwch â: jessie.buchanan@tfc.cymru**